

# Cyngor Tref TREGARON Town Council



Clerc/Clerk: Fflur Lawlor  
E-bost/E-mail: [clerc@cyngor-tregaron-council.org.uk](mailto:clerc@cyngor-tregaron-council.org.uk)  
Ffôn symudol/Mobile: 07891677597

## Cyfarfod mis Medi Cyngor Tref Tregaron / Tregaron Town Council September Meeting Nos Lun / Monday 26.09.2022

7.30yh/pm – yn Neuadd Goffa Tregaron / Memorial Hall

### COFNODION CYFARFOD CYNGOR MIS MEDI / SEPTEMBER COUNCIL MEETING MINUTES

	Eitem / Item	Gweithred / Action
1.	<p><b>CROESO / WELCOME</b> Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod. <i>The Chair welcomed everyone to the meeting.</i></p> <p>PRESENNOL / PRESENT: Cyng/Cllr Rhydian Wilson (Cadeirydd/Chair), Arwel Jones, Catherine Hughes, Laura Sherman, Rhian Jones, Owain Pugh, Dewi Evans, Dafydd Richards, Karen Bulman &amp; Sian Jones</p> <p>Clerc / Clerk – Fflur Lawlor</p> <p>Cyng/Cllr Ifan Davies, Aelod Lleol Cyngor Sir Ceredigion County Council Local Member</p>	
2.	<p><b>YMDDIHEURIADAU / APOLOGIES</b> Dim i'w gofnodi. <i>Nothing to report.</i></p>	
3.	<p><b>MATERION PERSONOL / PERSONAL MATTERS</b> Dim i'w gofnodi. <i>Nothing to report.</i></p>	
4.	<p><b>ADRODDIAD YR HEDDLU / POLICE REPORT</b> Roedd PC John Evans yn bresennol yn y cyfarfod - adroddwyd 6 cofnod o ymddygiad gwrthgymdeithasol, 3 cofnod o ddifrod, 3 cofnod o ddwyn, 2 gofnod o ymosod a 1 adrodd o fwrgeriaeth yn ystod y mis diwethaf. <i>PC John Evans was present at the meeting – 6 record of antisocial behaviour, 3 record of damage, 3 record of theft, 2 record of attack and 1 record of burglary had been reported in the last month.</i></p>	
5.	<p><b>DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL / DECLARATION OF PERSONAL INTEREST</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Cyng. Catherine Hughes yn datgan diddordeb mewn unrhyw drafodaeth / penderfyniadau ynglŷn ag Argraffwyr Lewis + Hughes a'r Carnifal.</li><li>• Cyng Dafydd Richards yn datgan diddordeb mewn unrhyw drafodaeth / penderfyniadau ynglŷn â Aber Cherry Pickers.</li><li>• Cyng Rhydian Wilson yn datgan diddordeb mewn unrhyw drafodaeth ynglŷn â Ffair Garon.</li></ul>	

CADEIRYDD / CHAIRMAN

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyng Arwel Jones yn datgan diddordeb mewn unrhyw drafodaeth ynglŷn â Rasmus Tregaron.</li> <li>• Cyng Laura Sherman yn datgan diddordeb mewn unrhyw drafodaeth ynglŷn â Wi-Fi y dref.</li> <li>• Cyng Owain Pugh yn datgan diddordeb mewn unrhyw drafodaeth ynglŷn â'r cyllid.</li> <li>• Clerc yn datgan diddordeb mewn unrhyw drafodaeth ynglŷn âg Argraffwyr Lewis + Hughes.</li> </ul> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <i>Cllr Catherine Hughes declaring an interest in any discussion / decisions with regards to Argraffwyr Lewis + Hughes and the carnival.</i></li> <li>• <i>Cllr Dafydd Richards declaring an interest in any discussion / decisions with regards to Aber Cherry Pickers.</i></li> <li>• <i>Cllr Rhydian Wilson declaring an interest in any discussion / decisions with regards to Ffair Garon.</i></li> <li>• <i>Cllr Arwel Jones declaring an interest in any discussion / decisions with regards to Tregaron Races.</i></li> <li>• <i>Cllr Laura Sherman declaring an interest in any discussion / decisions with regards to the Town Wi-Fi.</i></li> <li>• <i>Cllr Owain Pugh declaring an interest in any discussion / decisions with regards to finance.</i></li> <li>• <i>Clerk declaring an interest in any discussion with regards to Argraffwyr Lewis + Hughes.</i></li> </ul>	
6.	<p><b>CADARNHAU COFNODION / APPROVAL OF MINUTES FROM 20/06/22</b> Cytunwyd bod y cofnodion yn rhai cywir</p> <p><i>It was agreed that this was a true record of the minutes.</i></p> <p>Cynnig/Proposed: Cyng/Cllr Catherine Hughes Eilio/Seconder: Cyng/Cllr Arwel Jones</p>	
7.	<p><b>MATERION YN CODI O'R COFNODION / MATTERS ARISING FROM MINUTES</b> Dim i'w gofnodi. <i>Nothing to report.</i></p>	
8.	<p><b>CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL</b> A) Gwybodaeth a dderbyniwyd wrth CSC / <i>Information received from CCC –</i></p> <p>Ebyst wedi cael eu danfon ymlaen at y Cynghorwyr cyn y cyfarfod / <i>Emails forwarded to Councillors prior to meeting.</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• 08/08/2022 – Methiant i gael caniatâd cynllunio – Llwyngaru House, Llwyngaru Farm, Caebwd. <i>Failure to obtain planning permission – Llwyngaru House, Llwyngaru Farm, Caebwd.</i></li> <li>• 08/08/2022 – E-bost oddi wrth Gerwyn Jones, CSC ynglŷn â'r Gysgodfan Bws a dynnwyd o safle'r hen ysgol gynradd – i'w leoli ar y palmant ar bwys wal mynwent y Capel. Diolchodd i'r Clerc a'r Cyngor Tref am gyd-weithio cyn ac yn ystod wythnos yr Eisteddfod.</li> </ul>	

<p><i>Email from Gerwyn Jones, CCC regarding the Bus Stop Shelter removed from the old primary school site – to be located on the pavement by the Chapel cemetery wall.</i></p> <p><i>He thanked the Clerk and Town Council for collaborating in preparation for the Eisteddfod.</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• 16/08/2022 – Polisi Ymgyslltu a Chyfranogi / <i>Engagement and Participation Policy.</i></li> <li>• 30/08/2022 – Cyfyngiad Cyflymder Argyfwng / <i>Emergency Speed Restriction: A485 Neuaddlas, Tregaron.</i></li> <li>• 15.09.2022 – Gwahoddiad Gwasanaeth Coffa a Diolchgarwch am Fywyd y Frenhines Elizabeth II 18.09.22 / <i>Invite to the Service of Commemoration and Thanksgiving for the Life of Queen Elizabeth II – Eglwys Gadeiriol Tyddewi / St.Davids Cathedral.</i></li> <li>• 23/09/2022 – Gwasanaethau Etholiadol / <i>Electoral Services</i> – Adolygu Cofnodion ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned - un lle gwag ar Cyngor Tref Tregaron, angen cadarnhau sut ydych yn dymuno parhau a byddant yn creu hysbysiadau perthnasol. Trafodwyd ac roedd rhai Cynghorwyr yn ymwybodol bod gan rai trigolion ddiddordeb mewn ymuno â'r Cyngor. Penderfynwyd hysbysebu'r sedd wag. Clerc i gysylltu â CSC i ofyn sut i symud ymlaen ac a ellir ei hysbysebu'n lleol.</li> </ul> <p><i>Reviewing records for Town and Community Councils – one empty seat on Tregaron Town Council and need to confirm how to proceed with the vacant seat and they will create the relevant notices.</i></p> <p><i>It was discussed and some Councillors were aware that some residents were interested in joining the Council. It was decided to advertise the vacant seat. Clerk to contact CCC to ask how to proceed and if it can be advertised locally.</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• 07/09/2022 – Diweddariad ar Ymgeiswyr Defnydd Tir ar Adran Ystadau / <i>Update for Use of Land Applicants Estates Section.</i></li> <li>• 09/09/2022 – Canllawiau'r Llywodraeth ar gyfer y cyfnod galar Cenedlaethol / <i>Government guidance for the period of National Mourning.</i></li> </ul> <p>B) Diweddariad gan yr Aelod Lleol / <i>Update from the Local Member, Cyng/Cllr Ifan Davies –</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Is-bwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau / <i>Sub-committee Charity Trustee Committee</i> Bydd gwahoddiad yn dod i Gadeirydd y Cyngor Tref i fod yn rhan o'r is-bwyllgor bydd yn ystyried sut y gall ddefnyddio'r arian sydd ym meddiant y pwyllgor ymddiriedolwyr ar ôl gwethu Hen Ysgol Uwchradd Tregaron er mwyn cyflawni amcanion yr Elusen.</li> </ul> <p><i>There will be an invite to the Chair of Town Council to be part of the sub-committee that will consider how the money held by the trustee committee</i></p>	<p>Clerc / Clerk</p>
---	----------------------

	<i>following the sale of the Former Old Tregaron County School could be utilised towards the object of the Charity.</i>	
9.	<p><b>CYFRIFON / FINANCIAL MATTERS</b></p> <p>Balans y Banc / <i>Bank Balance</i> –</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfrif Busnes Cyfredol / <i>Business Current</i> – £21,497.68</li> <li>• Cyfrif Busnes wrth gefn / <i>Business Reserve</i> – £16,929.37</li> <li>• Cyfrif Busnes wrth gefn / <i>Business Current (Cadeirydd / Chairman)</i> – £3,126.90</li> <li>• Cyfrif Busnes wrth gefn / <i>Business Reserve (Gratuity)</i> – £315.24</li> </ul> <p>Taliadau mis Awst / <i>August payments</i> –</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• SSE – golau Nadolig/Christmas Lights 2021 £47.20</li> <li>• North Wales Street &amp; Lighting – Screen i’r sgwar / Screen for Sqaure £3,900</li> <li>• Aber Pickers – bunting £700</li> <li>• Cyflog Gweithiwr Strydlun Gorffennaf/Streetscene worker salary July £258.40</li> <li>• Cyflog Clerc Gorffennaf / Clerk salary July £515.20</li> <li>• HRMC Mis Gorffennaf / July £193.40</li> <li>• TTS – Gorffennaf / July £141.48</li> </ul> <p>Taliadau mis Medi / <i>September payments</i> –</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyflog Gweithiwr Strydlun Awst/Streetscene worker salary August £258.40</li> <li>• Cyflog y Clerc Mis Awst / Clerk salary August £276.00</li> <li>• HMRC Mis Awst / August £133.60</li> <li>• TTS – Awst / August £252.69</li> <li>• Glasdon – Bagiau baw cwn / Dog Waste Bags £92.09</li> <li>• Tregaroc – Cwpannau agoriad Cylch Cerrig/Cups for ‘Cylch Cerrig’ opening £60.00</li> <li>• Robert’s Garden Centre – Dwr i’r blodau / Watering flowers £3000.00</li> <li>• D Benjamin – Torri Porfa / Grass Cutting £1182.00</li> <li>• Ff Lawlor – Clerc / Clerk – TEN Application fee – Party in the Park £21.00</li> <li>Trwydded TEN – Parti yn y Parc</li> <li>• David J Edwards – baneri / banners £92.45</li> <li>• Owain Pugh - agoriad Cylch Cerrig/ ‘Cylch Cerrig’ opening £77.99</li> <li>• Daniel Bailey – symud cerrig, Cylch Cerrig / moving stones ‘Cylch Cerrig’ £50.00</li> </ul> <p>Cynnig/<i>Proposed</i>: Cyng/<i>Cllr</i> Arwel Jones Eilio/<i>Seconder</i>: Cyng/<i>Cllr</i> Sian Jones</p> <p>Incwm / <i>Income</i> –</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• 31/07/2022 - Praesept / Precept 2023 – ail daliad / 2nd installment £8,000.00</li> <li>• 19/08/2022 - VAT return for 2021/2022 £3,250.52</li> <li>• Western Power Distribution £14.64</li> </ul> <p>Archwilio Cymru / <i>Audit Wales</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymholiadau ynghylch Ffurflen Flynnyddol 2021-22 – Clerc wedi ymateb gydag esboniad a dogfennau perthnasol. <i>Queries regarding Annual Return for 2021-22 – Clerk has responded with explanation and supporting documentations.</i></li> </ul>	Clerc / Clerk
10.	<p><b>ADRODDIADAU IS-BWYLLGORAU / SUB-COMMITTEES REPORTS</b></p> <p>a) <u>Eisteddfod</u></p>	

<p>Diolchodd y Cadeirydd i bawb am y gwaith cyn, yn ystod ac ar ôl wythnos yr Eisteddfod - roedd pawb wedi gweithio'n galed ac roedd y dref yn edrych yn wych. Bu'n wythnos lwyddiannus iawn ac mae'r Clerc wedi derbyn nifer o lythyrau / e-byst yn llongyfarch y Cyngor Tref ar eu paratodau i groesawu'r Eisteddfod.</p> <p>Penderfynwyd y byddai'r Clerc yn drafftio taflen wybodaeth i'w rhannu gydag unrhyw gynghorau eraill fydd yn cynnal yr Eisteddfod yn y dyfodol.</p> <p>b) <u>Is-bwyllgor Parc / Blodau</u> Gwiriadau misol lechyd a Diogelwch y Parc i barhau - bydd y Cyng Sian Jones yn cynnal y gwiriadau yn Medi/Hydref. Gwiriadau bob pythefnos i'w wneud dros y gaeaf- Clerc i e-bostio pawb gyda'r ffurflen. Diolchwyd i Cyng Dewi Evans am wneud mis diwethaf.</p> <p>Clerc i gysylltu â Chanolfan Arddio Robert i ofyn pryd fydd y potiau blodau yn cael eu clirio a'r posibilrwydd o blannu cennin pedr.</p> <p>c) <u>Is-bwyllgor Cynllun Lle</u> Cadeirydd wedi cyfarfod â Wil Judge, Swyddfa Wledig i drafod y cynllun lle. Y cam nesaf yw i Wil Judge drefnu cyfarfod gyda'r is-bwyllgor Cynllun Lle.</p> <p>Bydd angen trefnu ymgynghoriad cyhoeddus yn fuan i ddiweddarau blaenoriaethau ac amcanion ar gyfer y dref.</p> <p>d) <u>Is-bwyllgor Bwrdd Digidol</u> Mae'r gwaith o gasglu gwybodaeth i harddangos ar y bwrdd yn mynd yn ei flaen. Cytunwyd bod yn rhaid i'r holl wybodaeth a ddarperir i'w arddangos ar y bwrdd fod yn ddwyieithog. Mae angen drafftio dogfennau fel prisiau hysbysebion busnes, telerau ac amodau ac ymwadiad - i'w trafod gan bwyllgor y bwrdd digidol.</p> <p>a) <u>Eisteddfod</u> <i>The Chair thanked everyone for the work before, during and after the Eisteddfod week - everyone worked hard, and the town was looking great. It was a very successful week and the Clerk has received numerous letters / emails congratulating the Town Council on their preparations to welcome the Eisteddfod.</i></p> <p><i>It was decided that the Clerk would draft an information sheet that could be shared with any other councils that are to host the Eisteddfod in future.</i></p> <p>b) <u>Park / Flowers Sub-Committee</u> <i>Monthly Health &amp; Safety checks of the Park to continue – Cllr Sian Jones will carry out the checks for September/October. Fortnightly checks to be carried out over the winterr. Thanks was extended to Cllr Dewi Evans for doing last month.</i></p> <p><i>Clerc to contact Robert's Garden Centre to ask when the flower pots will be cleared and the possibility of planting daffodils.</i></p> <p>c) <u>Place Plan Sub-Committee</u> <i>Chair has met with Wil Judge, Rural Office to discuss the place plan. Next step is for Wil Judge to arrange a meeting with the Place Plan sub-committee.</i></p>	<p>Clerc / Clerk</p> <p>Cyng / Cllr Sian Jones</p> <p>Cyng / Cllr Catherine Hughes Arwel Jones Rhydian Wilson</p>
--	---

	<p><i>A public consultation will need to be arranged soon to update priorities and objectives for the town.</i></p> <p><i>d) <u>Digital Board Sub-Committee</u></i>  <i>Work is being done on collecting information to be displayed on the board. It was agreed that all information provided to be displayed must be bilingual. Documents such as business advert prices, terms and conditions and a disclaimer need to be drafted - to be discussed by the digital board committee.</i></p>	
11.	<p><b>PROSIECTAU I'R DYFODOL / FUTURE PROJECTS</b></p> <p>11.1  <u>Sgwâr Tregaron Square</u>  Caewyd y Sgwâr i draffig fel peilot dros wythnos yr Eisteddfod. Defnyddiwyd fel gofod i'r gymuned eistedd, cymdeithasu a mwynhau'r awyrgylch – cafwyd adborth cadarnhaol a bod trigolion/ymwelwyr wedi mwynhau cael lle i eistedd a mwynhau.</p> <p>Ymgynghoriad cyhoeddus i'w gynnal i weld beth yw barn y gymuned o gau'r sgwâr dros fisoedd yr haf a faint o'r ardal i'w chau i draffig. Clerc i wneud ymholiadau gyda Chyngor Sir Ceredigion i weld a ydy hyn yn bosib.</p> <p><i>The Square was closed off to traffic as a pilot over the Eisteddfod week and used as space the community could sit, socialise and enjoy the vibe - positive feedback has been received and that residents/visitors enjoyed having the space to sit and enjoy.</i></p> <p><i>Public consultation to be held to see what the community response would be to close the square over the summer months and how much of the area to close to traffic. Clerk to make inquiries with Ceredigion County Council to see if this is possible.</i></p> <p>11.2  <u>Prosiect Cyfoeth Naturiol Cymru – Afon Breninig / Natural Resource Wales project – Breninig River</u>  Mae angen cynnwys y prosiect hwn yn y Cynllun Lle. Mae angen edrych i mewn i gyllid posib hefyd.</p> <p><i>This project needs to be included in the Place Plan. Possible funding needs to be identified as well.</i></p> <p>11.3  <u>Trefniadau'r Nadolig / Christmas Arrangements</u>  <u>Ffair Nadolig / Christmas Fair –</u>  Awgrymodd y Cyng. Ifan Davies i ofyn i Bennaeth Ysgol Henry Richard a fyddent yn ystyried cynnal Ffair Nadolig yr ysgol yn y neuadd ar 02/12/22 - Cyng. Rhydian Wilson i ofyn i'r pennaeth, Mr Dorian Pugh.</p> <p><i>It was suggested by Cllr Ifan Davies to ask Head of Ysgol Henry Richard if they would consider holding the school Christmas Fair in the hall on the 02/12/22 - Cllr Rhydian Wilson to ask the head, Mr Dorian Pugh.</i></p> <p><u>Troi Golau ymlaen / Turning on the lights – 02/12/22</u> - Clerc i wneud cais i CSC am ganiatâd i gau'r Sgwâr ar gyfer troi'r goleuadau Nadolig ymlaen.</p>	<p>Clerc / Clerk</p> <p>Cyng / Cllr Rhydian Wilson</p> <p>Cyng/Cllr Arwel</p>

	<p>Angen goleuadau Nadolig newydd i'r dref - Clerc i weld os gellir gwneud cais am Grant y Dref Wledig.</p> <p><i>Clerk to apply to CCC for permission to close the Square for turning on the Christmas lights. New Christmas lights are needed for the town - Clerk to see if the Rural Town Grant can be applied to.</i></p> <p><u>Taith Sion Corn / Santa Tour</u> – i'w drafod gan is-bwyllgor Nadolig (Cyng. Arwel Jones, Rhian Jones, Owain Pugh, Sian Jones, Clerc) / <i>to be discussed by the Christmas sub-committee (Cyng. Arwel Jones, Rhian Jones, Owain Pugh, Sian Jones, Clerk).</i></p>	<p>Jones, Rhian Jones, Sian Jones, Owain Pugh</p> <p>Clerc / Clerk</p>
12.	<p><b>ADRODDIAD Y GWEITHIWR STRYDLUN / STREET SCENE WORKER REPORT</b></p> <p>Mae angen gwneud y canlynol -</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Glanhau prif strydoedd y dref yn wythnosol - Pentre, Sgwâr, Ffordd yr Orsaf, Chapel Street, Pontrhydefendigaid Road</li> <li>• Glanhau strydoedd eraill yn eu tro</li> </ul> <p>Is-bwyllgor i gyfarfod i drafod y canlynol –</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Swydd Disgrifiad</li> <li>• Cynllun Gwaith</li> <li>• Amserlen gwaith</li> <li>• Taflenni amser</li> </ul> <p><i>The following needs to be done -</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <i>Main streets of the town to be cleaned weekly – Pentre, Square, Station Road, Chapel Street, Pontrhydfendigaid Road</i></li> <li>• <i>Other streets to be cleaned in rotation</i></li> </ul> <p><i>Sub Committee to meet to discuss –</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <i>Job description</i></li> <li>• <i>Plan of work</i></li> <li>• <i>Timetable of work</i></li> <li>• <i>Timesheets</i></li> </ul>	<p>Cyng / Cllr Rhian Jones Laura Sherman Sian Jones Rhydian Wilson</p> <p>Clerc / Clerk</p>
13.	<p><b>CEISIADAU CYNLLUNIO / PLANNING APPLICATIONS</b></p> <p>Rhif y Cais / <i>Application:</i> A220477 Ymgeisydd / <i>Applicant:</i> C Samuel Safle / <i>Site:</i> Gwarcastell, Tregaron, SY25 6HN Y bwriad / <i>Intention:</i> Mynedfa newydd i gerbydau / <i>Proposed new vehicular access</i></p> <p>Rhannwyd gwybodaeth trwy e-bost i'r Cynghorwyr gan na chynhaliwyd cyfarfod ym mis Awst. Atebodd y Clerc i CSC – dim gwrthwynebiad. <i>Information shared via email to Cllrs as no meeting was held in August. Clerk replied to CCC – no objections.</i></p>	<p>Clerc / Clerk</p>
14.	<p><b>CANIATAD CYNLLUNIO / PLANNING APPROVED</b></p> <p>Dim i'w gofnodi. <i>Nothing to report.</i></p>	
15.	<p><b>UN LLAIS CYMRU / ONE VOICE WALES</b></p> <p>Ebyst wrth Tracy Gimartin-Ward Un Llais Cymru – wedi cael eu danfon ymlaen at y Cynghorwyr cyn y cyfarfod.</p>	

	<i>Emails from Tracy Gimartin-One Voice Wales Ward - forwarded to Councillors prior to meeting.</i>	
16.	<p><b>PROSIECT CYLCH CARON PROJECT</b> Dim i'w gofnodi. <i>Nothing to report.</i></p>	
17.	<p><b>GOHEBIAETH / CORRESPONDENCE</b></p> <p>17.1 20.07.2022 – E-bost oddi wrth 'Robert's Garden Centre', pris rhoi dŵr i'r blodau wedi codi o £175 i £200 yr wythnos oherwydd costau tanwydd yn codi – cytunodd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd ynghyd â'r holl Gynghorwyr.</p> <p><i>Email from Robert's Garden Centre, price of watering the flowers gone up from £175 to £200 a week due to cost of fuel rising – Chair and Vice Chair agreed along with all the Cllrs.</i></p> <p>17.2 21.07.2022 – LIFE Cyforgorsydd Cymru – cais i gymryd rhan mewn asesiad economaidd-gymdeithasol ar gyfer y prosiect – e-bost i'r Cadeirydd fod yn rhan o'r asesiad.</p> <p><i>LIFE Welsh Raised Bogs – request to take part in Socio-economic assessment for the project – email for the Chair to be part of the assessment.</i></p> <p>17.3 08.08.2022 – E-bost oddi wrth Myrddin ap Dafydd yn llongyfarch y Cyngor Tref a'r thrigolion ar lwyddiant yr Eisteddfod – yr un gorau erioed! Mae hefyd wedi gwneud 'Englyn' i'r Cylch Cerrig –</p> <p><i>Email from Myrddin ap Dafydd congratulating the Town Council and residents for a succesful Eisteddfod – the best one ever! He has also done a 'Englyn' for the Stone circle –</i></p> <p style="padding-left: 40px;">Cylch Cofio Eisteddfod Tregaron Daearodd pob ffarm ei stori, - mae'n co' Mewn cylch na all hollti: Co' oes cyn ein heinioes ni, Co' aur ein cylch aceri.</p> <p>17.4 11.08.2022 – E-bost oddi wrth Manon Owen, Cyngor Tref Pwllheli – diolch am y croeso a'r Eisteddfod ardderchog. Hefyd, yn gofyn am unrhyw adborth, cymorth gyda threfniant Eisteddfod Llyn ac Eifionydd 2023 – Clerc mewn cysylltiad â Manon – unrhyw un gyda gwybodaeth i'w drosglwyddo i'r Clerc.</p> <p><i>Email from Manon Owen, Pwllheli Town Council – thanking us for the welcome and excellent Eisteddfod. Also, asking for any feedback, help with arrangements for the 2023 Llyn ac Eifionydd Eisteddfod – Clerk in contact with Manon – anyone with information to pass on to the Clerk.</i></p> <p>17.5 12.08.2022 –</p>	Clerc / Clerk



	<p>E-bost wrth Mick, Nia, Dafydd, Kelly a thîm Talbot – diolch i'r Cyngor Tref am yr holl drefniadau ar gyfer Wythnos yr Eisteddfod. Roedd yn wythnos dda iawn a chafwyd adborth cadarnhaol gan gwsmeriaid. Braf hefyd yw gweithio'n agos gyda'r Cadeirydd a'r Cyngor, gweithiodd y cyfathrebu'n dda.</p> <p><i>Ebost wrth Mick, Nia, Dafydd, Kelly and team Talbot – thanking the Town Council for pulling out all the stops for the Eisteddfod Week. It was a very good week and had positive feedback from customers. Also good to work closely with the Chair and the Council, the communication worked well.</i></p> <p>17.6 13.08.2022 – E-bost oddi wrth Glen Jones, Ffestiniog – llongyfarch Tregaron ar Eisteddfod ardderchog.</p> <p><i>Email from Glen Jones, Ffestiniog – congratulating Tregaron on an excellent Eisteddfod.</i></p> <p>17.7 Llythyr wrth Gwyneth Davies i longyfarch y Cyngor Tref ar wythnos yr Eisteddfod.</p> <p><i>Letter from Gwyneth Davies to congratulate the Town Council on the week of the Eisteddfod.</i></p> <p>17.8 22.08.2022 – Cais am drwydded i Gyngor Sir Ceredigion am Barti yn y Parc – 02.09.22. Rhoddwyd trwydded.</p> <p><i>TEN Application to Ceredigion County Council for Party in the Park – 02.09.22. Licence granted.</i></p> <p>17.8 25.08.2022 – Will Judge, Swyddfa Wledig (trwy e-bost y Cadeirydd) – gweithio gyda'r Cyngor Tref mewn perthynas â'r Cynllun Lle. Mae'r Cadeirydd wedi mynychu cyfarfod cychwynnol ar-lein.</p> <p><i>Will Judge, Rural Office (via Chair email) – working with Town Council with regards to the Place Plan. Chair has attended initial online meeting.</i></p> <p>17.9 Llythyr diolch gan Ganolfan Dreftadaeth Tregaron am y cymorth ariannol a roddwyd.</p> <p><i>Thank you letter from Tregaron Heritage Centre for the financial assistance given.</i></p>	
18.	<p><b>UNRHYW FATER ARALL / ANY OTHER BUSINESS</b></p> <p>18.1 Data Wifi – Dosbarthodd y Clerc ar e-bost i bob Cyngorydd cyn y cyfarfod, y data ar gyfer pob mis ers gosod yr unedau Wi-Fi. Darperir hyfforddiant ar sut i ddadansoddi'r data a bydd ar gael i bob Cyngorydd ac unrhyw un arall y mae'r Cyngor yn meddwl y gallai fod yn briodol iddynt.</p> <p><i>Wifi Data – Clerk circulated on email to all Councillors prior to the meeting, the data for each month since installing the Wi-Fi units. Training will be provided on how to analyse the data</i></p>	

<p><i>and will be available to all Councillors and anyone else the Council think it might be appropriate to.</i></p> <p>Wifi y Dref - unedau yn £1045 yr un, £295 yr uned am 5 mlynedd i'r drwydded. Mae'n gost gymwys ar gyfer y Grant Trefi Gwledig. Trafodwyd a chytunwyd i ofyn am 2 uned ychwanegol, 1 i'w leoli ar Stryd yr Orsaf ger y Mart / Clwb Rygbi ac un ar Heol Llanbedr Pont Steffan / ger ardal Maesamlwg. Clerc i gael dyfynbris a gofyn iddo gael ei dalu o'r Grant Tref Wledig.</p> <p><i>Town Wifi – units are £1045 each, £295 per unit for 5 years for the licence. It's an eligible cost for the Rural Towns Grant. It was discussed and agreed to ask for 2 additional units, 1 to be located on Station Road by the Mart / Rugby Club and 1 on Lampeter Road / by Maesamlwg area. Clerk to get a quote and ask for it to be paid for from the Rural Town Grant.</i></p> <p>Cynnig/Proposed: Cyng/Cllr Owain Pugh Eilio/Seconder: Cyng/Cllr Rhian Jones</p>	<p>Clerc / Clerk</p>
<p>18.2</p> <p>Grant Trefi Gwledig - £11,810 yn weddill yn y pot – Clerc i holi os yw goleuadau Nadolig newydd i'r dref yn gymwys.</p> <p><i>Rural Towns Grant - £11,810 remaining in the pot– Clerk to enquire if new Christmas lights for the town are eligible.</i></p>	<p>Clerc / Clerk</p>
<p>18.3</p> <p>Polion baneri – Pete Evans, Red Dragon Flag Makers. Clerc wedi siarad gyda Lowri Edwards, CSC a gall y Cyngor Tref gadw cymaint o'r 6 ag y dymunant, ond bydd cytundeb rhwng y Cyngor Tref a Red Dragon Flag Makers. Ni all CSC ddefnyddio'r cwmni ar gyfer polion parhaol gan nad yw'r cwmni yn rhan o Gynllun y Diwydiant Adeiladu.</p> <p>Clerc i ofyn am ddyfynbris ar gyfer archwiliadau blynyddol o'r polion. Cytunwyd i gadw'r ddau ger Brynheulog a symud y 4 arall yn nes i'r dref petaent yn cael eu cadw. I'w drafod yn y cyfarfod nesaf unwaith y bydd y Clerc wedi siarad â'r cwmni.</p> <p><i>Flag poles – Pete Evans, Red Dragon Flag Makers. Clerk has spoken to Lowri Edwards, CCC and the Town Council can keep as many of the 6 as they want, but agreement will be between Town Council and Red Dragon Flag Makers. CCC can't use the company for permanent poles as the company isn't in the Construction Industry Scheme.</i></p> <p><i>Clerk to ask for a quote for the annual inspections of the poles. It was agreed to keep the two by Brynheulog and move the other 4 closer into town if they were to be kept. To be discussed at the next meeting once the Clerk has spoken to the company.</i></p>	<p>Clerc / Clerk</p>
<p>18.4</p> <p>Roger Pride, Orchard – Gweithdy Brandio</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>i. Trafod egwyddorion a phwrpas brandio lle</li> <li>ii. Presennol, adborth mewnwediadau ac opsiynau o'r cyfnod ymgysylltu gwreiddiol</li> <li>iii. Ystyried opsiynau ar gyfer y syniad brand ar gyfer Tregaron</li> <li>iv. 2 sesiwn – 2.5 awr yr un.</li> <li>v. Pob sesiwn 12 uchafswm</li> <li>vi. Cyngor Tref i fod yn rhan gwneud y rhestr presenoldeb</li> </ol>	

<p>vii. 18fed / 19eg Hydref</p> <p>Pawb yn gytûn â'r uchod, unwaith y derbynnir mwy o wybodaeth y Clerc i hysbysu'r Cyngor.</p> <p><i>Roger Pride, Orchard – Branding Workshop</i></p> <ol style="list-style-type: none"> <li><i>i. Discuss the principles and purpose of place branding</i></li> <li><i>ii. Present, feedback insights and options from the original engagement phase</i></li> <li><i>iii. Consider options for the brand idea for Tregaron</i></li> <li><i>iv. 2 sessions – 2.5hours each.</i></li> <li><i>v. Each session 12 max</i></li> <li><i>vi. Town Council to be involved in attendance list</i></li> <li><i>vii. 18<sup>th</sup> / 19<sup>th</sup> October</i></li> </ol> <p><i>All in agreement with the above, once more information is received the Clerk to inform the Council.</i></p> <p>18.5 22.09.2022 –</p> <p>E-bost oddi wrth Marian Davies, aelod o bwyllgor Carnifal Tregaron – ni all y pwyllgor barhau fel y mae. Gofyn i Gadeirydd y Cyngor a/neu'r Aelod Lleol alw cyfarfod cyhoeddus i benderfynu dyfodol y carnifal.</p> <p>Wedi trafodaeth, cynnigwyd gan Cyng. Arwel Jones i alw cyfarfod cyhoeddus i drafod dyfodol y Carnifal, Ffair Nadolig a Ffair Garon – pawb yn gytun a'r Clerc i drefnu. Cyng. Rhydian Wilson i'r gadeirio'r cyfarfod.</p> <p><i>Email from Marian Davies, committee member of Tregaron Carnival – committee can't continue as they are. Asking the Council Chair and / or the Local Member to call a public meeting to decide the future of the carnival.</i></p> <p><i>Following a discussion, Cllr Arwel Jones proposed calling a public meeting to discuss the future of the Carnival, Christmas Fair and Ffair Garon – all in agreement and the Clerk to arrange. Cllr Rhydian Wilson to Chair the meeting.</i></p>	<p>Clerc / Clerk</p>
<p>18.6</p> <p>Bunting - i'w dynnu lawr yn yr wythnosau nesaf – Clerc i ofyn i Aber Cherry Pickers.</p> <p><i>Bunting – to be taken down in the next few weeks – Clerk to book Aber Cherry Pickers.</i></p>	<p>Clerc / Clerk</p>
<p>18.7 –</p> <p><u>Cyng / Cllr Dewi Evans</u></p> <p>Angen tocio'r goeden yn y parc - Clerc i gael dyfynbrisiau ar gyfer y gwaith.</p> <p><i>The tree in the park needs to be trimmed - Clerk to obtain quotes for the work.</i></p>	<p>Clerc / Clerk</p>
<p>18.8 –</p> <p><u>Cyng / Cllr Dafydd Richards</u></p> <p>Mae marcio melyn ar gyfer parcio wedi ei wneud ar y rhan o flaen siop Rhiannon - mae'n edrych yn flêr. Eiddo preifat yw hwn. Clerc i ofyn a ellir ei dacluso a'i ail-wneud.</p> <p><i>Yellow marking for parking has been done on the section in front of Rhiannon shop - it looks untidy. This is private property. Clerk to ask if it can be tidied up and re-done.</i></p>	<p>Clerc / Clerk</p>
<p>18.9 –</p> <p><u>Cyng / Cllr Laura Sherman</u></p>	

	<p>Mae trigolion wedi bod yn cwyno am y baw ci o gwmpas y dref a'r diffyg biniau ar hyd Ffordd Pontrhydfendigaid. <i>Residents have been complaining about the dog waste around the town and the lack of bins along Pontrhydfendigaid Road.</i></p> <p>18.10 – <u>Cyng / Cllr Catherine Hughes</u> Trigolion wedi bod yn cwyno am y parcio ar hyd y palmant ar Heol Dewi - Clerc i anfon eto i CLIC (dal i aros am ateb pan gafodd ei anfon yn flaenorol). <i>Residents have been complaining about the parking along the pavement on Dewi Road - Clerk to send in again to CLIC (still awaiting reply for when it was sent in previously).</i></p> <p>18.11 – <u>Cyng / Cllr Arwel Jones</u> Diolch i bawb am y cymorth gyda 'Parti yn y Parc'. Llythyr o ddiolch i'w anfon at Dafydd Morgan a fu mor garedig â rhoi trydan i'r band am y noson - Clerc i anfon llythyr.</p> <p>Roedd gan Golwg 360 - arwydd mawr o fusnesau lleol yn yr Eisteddfod a hoffai rhoi i'r gymuned - i gyd yn gytûn i gael ac i feddwl lle byddai wedi'i leoli orau.</p> <p><i>Thanked everyone for the help with 'Party in the Park'. A letter of thanks to be sent to Dafydd Morgan who kindly donated electricity for the band for the evening - Clerk to send a letter.</i></p> <p><i>Golwg 360 - had a big sign of local businesses at the Eisteddfod and would like to give it to the community - all in agreement to have and to think where it would be best placed.</i></p> <p>Cafodd y cewyll ffensio a ddefnyddiwyd i gludo'r ffens ddiogelwch a fenthycwyd o Rasys Tregaron i'w defnyddio yn ystod yr Eisteddfod eu dwyn o ardal Cylch Cerrig. Mae hyn wedi cael ei adrodd i'r Heddlu. Mae'r Clerc wedi gwneud ymholiadau gydag yswiriwr y Cyngor Tref, ac nid yw wedi'i gynnwys yn y polisi ac ni all wneud hawliad. Y cyngor gan yr yswiriwr oedd i Rasys Tregaron geisio hawlio gan eu hyswiriwr. Penderfynwyd cael dyfynbrisiau ar gyfer cost rhai newydd.</p> <p><i>The fencing crates that were used to transport the security fence borrowed from Tregaron Races for use during the Eisteddfod were stolen from the Cylch Cerrig area. This has been reported to the Police. The Clerk has made enquiries with the Town Council insurer, and it's not covered under the policy and can't make a claim. The advice from the insurer was for Tregaron Races to try to claim from their insurer. It was decided to get quotes for the cost of replacements.</i></p> <p>Cynnig/Proposed: Cyng/Cllr Owain Pugh Eilio/Seconder: Cyng/Cllr Dewi Evans</p>	<p>Clerc / Clerk</p> <p>Clerc / Clerk</p>
19.	<p>Bydd y cyfarfod misol nesaf yn cael ei gynnal ddydd Llun Hydref 17<sup>eg</sup> 2022 am 7.00pm. Cynhelir y cyfarfod yn Neuadd Goffa Tregaron.</p> <p><i>The next monthly meeting will be held on Monday 17<sup>th</sup> October 2022 at 7.00pm. It will be held at Tregaron Memorial Hall.</i></p>	
20.	Terfynwyd y cyfarfod / Meeting was closed	